# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – ATAL A DIWYGIO GOFAL CYMDEITHASOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 17 HYDREF 2016 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorwyr V. M. Evans (Cadeirydd) (Cofnod 31-34) ac C. R. Doyle (Cofnod 28-30) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd | Y Cynghorydd | Y Cynghorydd |
|---|---|---|
| H. M. Morris | R. V. Smith | T. M. White |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd M. C. Child — Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach
Y Cynghorydd J. E. C. Harris — Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn

**Swyddog(ion)**
Jeremy Parkhouse — Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): U C Clay, J P Curtice a/ac E J King

27 **ETHOL CADEIRYDD DROS DRO.**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd C. R. Doyle yn Gadeirydd Dros Dro.

**(Y CYNGHORYDD C. R. DOYLE OEDD YN LLYWYDDU)**

28 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd buddiannau.

29 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Medi 2016 yn gofnod cywir, yn amodol ar y diwygiad canlynol:

**Cofnod 23 – Y Diweddaraf am bedwar Adolygiad Comisiynu**

Diwygio paragraff 2 fel a ganlyn:

'Ychwanegodd fod angen rhagor o waith ar adolygiadau comisiynu'r Canolfannau Gofal Preswyl a Dydd. Roedd yr Adolygiad Comisiynu Gofal Cartref ar fin cael ei

gyflwyno i'r Cabinet. Ar ôl i'r Cabinet gytuno arno, byddai'r adolygiad yn cael ei ddosbarthu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.'

30 **ARCHWILIO IECHYD A DEIET YN ABERTAWE.**

Cyflwynodd y Cynghorydd M. C. Child, Aelod y Cabinet dros Les a Dinas Iach, y cylch gorchwyl ar gyfer ymchwilio i iechyd a deiet yn Abertawe.

Gofynnodd i'r pwyllgor ymchwilio i'r rheswm am broblemau iechyd a deiet yn Abertawe ac amlygu rhai o'r achosion posibl i'w trafod a sut roedd yr awdurdod yn mynd i'r afael â'r mater.

Trafododd y pwyllgor yr opsiynau gorau sydd ar gael i fwrw ymlaen â'r ymchwiliad. Roedd trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol yn bennaf:

- Y bwyd a gynigir mewn prydau ysgol ac addysg bwyd mewn ysgolion;
- Nifer y siopau bwyd cyflym mewn cymunedau a'r bwyd afiach maent yn ei gynnig;
- Y mentrau bwyd sydd ar gael trwy CGGA;
- Diffyg argaeledd bwyd iach mewn cymunedau;
- Sut mae darpariaeth cludiant wael yn effeithio ar fynediad i fwyd iach mewn cymunedau difreintiedig;
- Sut gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru/PABM gynorthwyo'r ymchwiliad;
- Sut mae cymunedau difreintiedig yn cael trafferth wrth ddilyn mentrau a diffyg arian yn y fath gymunedau;
- Yr angen i gael trosolwg cyffredinol o'r sefyllfa yn Abertawe.

**PENDERFYNWYD** gwahodd Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn darparu cyflwyniad cyffredinol ynghylch iechyd a deiet yn Abertawe

31 **Y DIWEDDARAF AM ADOLYGIADAU COMISIYNU. (LLAFAR)**

**(Y CYNGHORYDD V. M. EVANS (CADEIRYDD) OEDD YN LLYWYDDU)**

Rhoddodd y Cynghorydd J. E. C. Harris, Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn, y diweddaraf i'r pwyllgor ynghylch yr adolygiadau comisiynu parhaol. Rhoddwyd yr wybodaeth ganlynol:

| | |
|---|---|
| • Adolygiad Comisiynu Canolfannau Dydd | Roedd angen gwaith ychwanegol ar yr adolygiad ac roedd wedi'i ohirio ar y pryd. |
| • Adolygiad Comisiynu Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu ac Anableddau Corfforol | Roedd yr adolygiad wedi dechrau, ond y cam cyntaf oedd llunio cynlluniau comisiynu gyda'r wybodaeth ddiweddaraf y byddai angen cytuno arnynt cyn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r gwasanaethau. |

| | |
|---|---|
| • Adolygiad Comisiynu Gofal Preswyl | Roedd angen gwaith ychwanegol ar yr adolygiad ac roedd wedi'i ohirio ar y pryd. |
| • Model Gwasanaeth Gwasanaethau i Oedolion | Roedd y model arfaethedig yn cael ei adrodd i'r Cabinet ar 20 Hydref 2016 a cheisiwyd cytundeb i fynd i ymgynghoriad cyhoeddus ar y model. |
| • Adolygiad Comisiynu Gofal Cartref | Roedd yr opsiynau'n cael eu hadrodd i'r Cabinet ar 20 Hydref 2016 a cheisiwyd cytundeb i fynd i ymgynghoriad cyhoeddus ar yr opsiynau. |

Ychwanegodd y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi'n rheolaidd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

32 **GWOBRAU AR GYFER ANNIBYNIAETH. (LLAFAR)**

Ceisiodd Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn eglurhad yn y cyfarfod nesaf ynghylch yr eitem hon.

Amlygodd y pwyllgor yr angen i gydnabod staff y Gwasanaethau Cymdeithasol am eu hymroddiad ar adegau anodd a chroesawyd syniadau ynghylch gwobrwyo staff.

**PENDERFYNWYD**:

1) Y byddai eglurhad ynghylch yr eitem hon yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf a drefnir;
2) Y byddai manylion am wobrau a enillwyd gan staff y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu rhoi yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

33 **Y DIWEDDARAF AM DALIADAU UNIONGYRCHOL.**

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau i Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn adroddiad diweddaru ar lafar i'r pwyllgor ynghylch taliadau uniongyrchol.

Rhoddodd esboniad am sut roedd y system yn gweithio, gan amlygu meysydd problemus, yn enwedig y diffyg yn nifer y cynorthwywyr personol sydd ar gael ar gyfer cyflogaeth. Cymharodd yr arferion a ddefnyddir mewn awdurdodau lleol eraill â'r rhai a ddilynir yn yr awdurdod.

Ychwanegwyd bod Llywodraeth Cymru am i unigolion aros yn eu cymunedau. Fodd bynnag, roedd llawer o rwystrau i'r system.

Trafododd y pwyllgor y canlynol:

- Proses cyflogi cynorthwywyr personol;
- Y pwysau a roddir ar y rhai sy'n cyflogi cynorthwywyr personol;
- Diogelu pobl ddiamddiffyn;
- Adolygu'r arferion a ddefnyddir ar gyfer taliadau uniongyrchol;
- Gweithdrefnau Llywodraeth Cymru;
- Biwrocratiaeth wedi'i sbarduno gan gost;
- Yr angen am gysondeb gan syrfewyr;
- Ailgyflwyno'r system rota i gynghorwyr.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

34 **RHAGLEN WAITH 2016/17.**

Rhoddodd y cadeirydd yr adroddiad am Raglen Waith 2016 – 2017.

Ychwanegodd y cynhaliwyd yr ymweliad â Chyngor Sir Fynwy ar 13 Hydref 2016 ac y bu'n addysgiadol iawn. Byddai'n rhoi adroddiad i'r cyfarfod nesaf a drefnir.

Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau i Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn i adroddiadau'r Cabinet ynghylch model gwasanaeth Gwasanaethau i Oedolion a'r Adolygiad Comisiynu Gofal Cartref gael eu hadrodd i'r cyfarfod nesaf a drefnir.

**PENDERFYNWYD**: -

1) Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Y bydd y cadeirydd yn rhoi adroddiad ynghylch yr ymweliad â Chyngor Sir Fynwy i'r cyfarfod nesaf a drefnir;
3) Y byddai adroddiadau ynghylch model gwasanaeth Gwasanaethau i Oedolion a'r Adolygiad Comisiynu Gofal Cartref yn cael eu hadrodd i'r cyfarfod nesaf a drefnir;
4) Gwahodd Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn darparu cyflwyniad cyffredinol ynghylch iechyd a deiet yn Abertawe.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.58 pm

**CADEIRYDD**